Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Therapiwtig Breswyl Amberleigh

Mae Ysgol Breswyl Therapiwtig Amberleigh yn ysgol arbennig annibynnol sydd wedi'i lleoli gerllaw tref farchnad y Trallwng, Powys. Mae'r ysgol yn darparu addysg, gofal a therapi i ddisgyblion rhwng 11 a 18 oed sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Caiff ei gweinyddu gan Amberleigh Care, sef asiantaeth arbenigol gwasanaethau plant sydd ag ysgol arbennig annibynnol arall yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 10 disgybl ar y gofrestr, bob un ohonynt yn fechgyn. Mae gan bump o'r disgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae pob un o'r disgyblion yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu Loegr ac maent yn byw yn y cartref plant sy'n rhannu safle'r ysgol.

Mae'r cyfarwyddwr addysg wedi bod yn ei swydd am dair blynedd ac mae rheolwr addysg yr ysgol wedi bod yn ei swydd ers blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o leiaf wrth ddatblygu'u gwybodaeth a'u medrau ac mae bron pob un ohonynt yn ennill ystod addas o gymwysterau priodol erbyn iddynt adael. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac maent yn dangos diddordeb, yn enwedig mewn gweithgareddau ymarferol. Maent yn awyddus i gyflawni, yn canolbwyntio ac yn ymateb yn dda i'r cymorth a'r her gan yr athro dosbarth.

Mae bron pob un o'r staff yn rheoli'u hystafelloedd dosbarth yn dda ac yn creu amgylcheddau dysgu cadarnhaol a chynhyrchiol. Mae trefniadau sefydledig ar gyfer sut y dylai disgyblion ymddwyn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Caiff y trefniadau hyn eu hatgyfnerthu'n gyson gan y staff a phan fydd disgyblion yn torri rheolau, maen nhw'n cydnabod hyn yn gyflym ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd.

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth, cynlluniau a phrosesau clir ar gyfer cyfeiriad strategol yr ysgol a'r rheolaeth arni o ddydd i ddydd. Gosodant ddisgwyliadau uchel ar gyfer staff, disgyblion a nhw'u hunain. Mae hyn wedi'u galluogi i ddatblygu tîm effeithiol ac ymroddedig o athrawon a staff cymorth.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mewn ychydig bynciau, nid yw gwaith bob amser wedi'i gynllunio'n ddigon da i fodloni anghenion disgyblion unigol.

Mae gan yr ysgol bolisi marcio ac adborth clir a defnyddiol. Mae staff yn rhoi ymatebion defnyddiol am ansawdd gwaith disgyblion yn ystod gwersi. Hefyd, mae athrawon yn rhoi tasgau neu gwestiynau pellach i ddisgyblion yn eu llyfrau gwaith i'w helpu i wella'u gwaith. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i ddisgyblion ymateb i'r rhain yn gyson.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol yn gwneud defnydd gwell o ddata i roi adborth â mwy o ffocws iddo i ddisgyblion unigol. Fodd bynnag, ni chaiff data ei ddefnyddio'n ddigon da i gysylltu hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gwella a dysgu proffesiynol ysgol gyfan.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Sicrhau bod cynllunio gwersi a gweithgareddau yn bodloni anghenion gallu gwahanol y disgyblion

A2 Gwella'r defnydd o ddata i lywio hunanwerthuso, cynllunio ar gyfer gwella a dysgu proffesiynol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwneud defnydd gwell o ffynonellau data lluosog yr ysgol i lywio addysgu, dysgu a chynllunio ar gyfer gwella**

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi gosod blaenoriaeth uwch ar sicrhau bod data a gwybodaeth ddiagnostig ac asesu yn cael eu defnyddio'n well i lywio addysgu a dysgu.  Mae uwch arweinwyr wedi sefydlu trefniadau buddiol i ddatblygu ymhellach y gwaith o olrhain asesu ar sail ysgol gyfan, sydd bellach yn cynnwys data allweddol, o werthusiadau gwaelodlin i asesiadau pwnc wedi'u heitemeiddio.  Mae staff addysgu'n cofnodi cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn erbyn targedau pwnc a thargedau ymddygiad unigol.  Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i amlygu tangyflawniad a chymryd camau priodol yn gyflym.

At ei gilydd, caiff data ei ddefnyddio'n fwyfwy da ar lefel disgybl unigol, er enghraifft i osod targedau ac olrhain, trefnu grwpiau disgyblion a chynllunio.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

***Safon 1:  Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

***Safon 2:  Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

***Safon 3:  Lles, iechyd a diogelwch disgyblion***

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

***Safon 4:  Addasrwydd perchnogion a staff***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

***Safon 5:  Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

***Safon 6:  Darparu gwybodaeth***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

***Safon 7:  Y modd yr eir i'r afael â chwynion***

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/12/2019